5 Mehefin 2025

Un Llais Cymru

One Voice Wales

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

## Mae Grant Rhaglen Ymchwil Dan Arweiniad Cymunedau y Gymru Wledig LPIP ar agor yn awr.

Mae hwn yn gyfle newydd i hyd at chwe chymuned wledig gael £20,000 i edrych ar beth sy'n bwysig yn lleol all arwain at newid cadarnhaol.

Mae'r LPIP yn cynnwys pedair thema a dylai eich pwnc alinio ag o leiaf un: · Adeiladu Economi Adfywiol · Cefnogi'r Symud at Sero Net · Grymuso Cymunedau ar gyfer Adferiad Diwylliannol · Cyfoethogi Llesiant mewn Bro Mae'r grant yn agored i gymunedau yn y Gymru wledig mewn lleoliad neu le yn ardaloedd yr awdurdodau lleol gwledig canlynol yng Nghymru: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Ynys Môn, Sir Fynwy, Sir Benfro, Powys a Bro Morgannwg.

## Parkinsons UK

Mae grantiau gwerth hyd at £3,000 ar gael i gefnogi prosiectau gweithgarwch corfforol ar gyfer pobl â chlefyd Parkinson ymhob rhan o wledydd Prydain.

Mae Arian i **Bawb y Loteri Genedlaethol** yn cynnig symiau o £300 i £20,000 i gefnogi beth sy'n bwysig i bobl a chymunedau; pethau sy'n bwysig iddyn nhw, gan gynnwys effaith yr argyfwng costau byw.

## Cadwch Gymru'n Daclus

Mae gan Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 100oedd o becynnau gardd rhad ac am ddim ar gael. O brosiectau garddio bach i berllannoedd a gweddnewidiadau mawr. Mae pob un yn cynnwys llwyth o blanhigion brodorol, offer, adnoddau a deunyddiau eraill. **Bydd swyddogion prosiect medrus ar gael i helpu**.

## Y Gronfa Adeiladu Capasiti Arfordirol

Mae'r gronfa yn anelu at greu capasiti ar gyfer partneriaid cymunedol, a'u helpu i gymryd camau cynaliadwy sy'n cynnal twf ac adferiad mewn ardaloedd morol ac arfordirol lleol.

Er mwyn gwneud cais bydd angen ichi gysylltu â'ch Cydlynydd Partneriaeth Natur Leol, fydd yn geisydd arweiniol am yr arian. Er mwyn cael mwy o wybodaeth ebostiwch lnpcymru@wcva.cymru..

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

Un Llais Cymru
One Voice Wales

## Cyfleoedd Rhanbarthol

**Fferm Wynt Graig Fatha**

Mae Interlink RCT yn cynnig hyd at 10 grant y mis, pob un werth hyd at £1,000. Y prosiectau gaiff flaenoriaeth ariannol yw rhai sy'n: Cynnwys cymunedau mewn ffordd ystyrlon Mynd i'r afael â heriau costau byw Cefnogi datblygiad cymunedol hirdymor a'r amgylchedd Cael gwared â rhwystrau rhag gallu cymryd rhan Er mwyn cael mwy o wybodaeth cysylltwch â: communityadvice@interlinkrct.org.uk

**Micro Gronfa Pen Y Cymoedd**

Dyddiad cau: Dydd Iau, 1 Awst 2025. Mae grantiau i fyny at £6,500 ar gael i gynghorau cymuned & thref. Gall y micro grantiau hyn ariannu digwyddiadau cymunedol, cefnogi busnesau newydd, hyrwyddo gwasanaethau, neu gyfrannu at astudiaethau dichonoldeb ar gyfer cynlluniau mwy.

**Grant Argyfwng Bwyd Cyngor Abertawe 25/26**

Mae Rownd 1 AR AGOR yn awr. Mae'r grant hwn yn ceisio cefnogi a chryfhau mentrau bwyd cymunedol, gan gynnwys ymdrechion sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd.

**Cynnal y Cardi**

Cronfa Datblygu a Chynnal Cymunedau i fyny at £50,000 Gall Cynghorau Cymuned & Thref yng Ngheredigion wneud cais am yr arian yma i'ch helpu i wneud gwahaniaeth yn eich cymuned.

**Dewch â Chelfyddydau Perfformio Byw I'ch Cymuned Chi!**

Oes gennych chi neuadd leol neu ganolfan gymunedol? Dyma gyfle gwych i gefnogi eich trigolion a dod â phobl at ei gilydd! Mae **Noson Allan / Night Out**, sy'n cael ei drefnu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yn helpu grwpiau lleol i gynnal perfformiadau byw yn eu cymunedau – gyda chymorth ariannol a dim risg ariannol.

I gael gwybod mwy a gwneud cais: www.nightout.org.uk Neu cysylltwch ag: enquiry@nightout.org.uk

## Dulliau Defnyddiol i Chwilio am Arian

Mae defnyddio peiriannau chwilio arian yn gallu eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu i'ch cyngor a grwpiau cymunedol.Mae nifer o Gronfeydd Buddion Cymunedol – cyfraniadau ariannol a wneir gan ddatblygwyr (e.e. ffermydd gwynt) i gefnogi prosiectau lleol.

**Sefydliad Cymunedol yng Nghymru**

**Cyllido Cymru**